Gwybodaeth i rai sydd wedi cofrestru

# Datblygu proffesiynol parhaus a'ch cofrestriad

# Cynnwys


**Adran 1 – Cyflwyniad  3**

Gwybodaeth am y ddogfen hon  3

Amdanom ni  3

**Adran 2 – Crynodeb  4**

DPP a chofrestru  4

Bodloni'r safonau DPP  4

Os cewch chi archwiliad  4

**Adran 3 – Gwybodaeth am y safonau DPP  5**

Beth yw DPP?  5

Safonau DPP  5

Dull hyblyg sy'n seiliedig ar ddeilliannau  5

Rôl cyflogwyr  5

DPP ac addasrwydd i ymarfer  6

**Adran 4 – Bodloni'r safonau  7**

Rhagor o fanylion am y safonau 7

Cynlluniau DPP  9

**Adran 5 – Y broses archwilio  11**

Crynodeb o'r broses archwilio  11

Rhagor o fanylion am y broses archwilio 12

**Adran 6 – Rhoi eich proffil DPP at ei gilydd  15**

Crynodeb o'r proffil  15

Ysgrifennu eich datganiad  15

Tystiolaeth ategol  15

**Adran 7 – Gwybodaeth bellach  17**

**Geirfa  18**

**Atodiad 1: Enghreifftiau o weithgareddau DPP  19**

**Atodiad 2: Enghreifftiau o dystiolaeth  20**

**Atodiad 3: Meini prawf asesu  21**

# Cyflwyniad

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

Rydym wedi ysgrifennu'r ddogfen hon er mwyn darparu gwybodaeth a chanllawiau i'r rhai sy'n gofrestredig ynglŷn â'n gofynion ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus (DPP).

Rhaid i bawb sy'n gofrestredig fodloni ein safonau ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus. Rydym yn cynnal archwiliadau bob tro y bydd proffesiwn yn adnewyddu ei gofrestriad er mwyn sicrhau bod ein safonau'n cael eu cyflawni.

### Sut mae'r ddogfen hon wedi'i threfnu

– Mae Adran un yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r HCPC.
– Mae Adran dau yn darparu crynodeb o'n gofynion ar gyfer rhai sy'n gofrestredig.
– Mae Adran tri yn egluro mwy am y safonau DPP a pham maen nhw gennym ni.
– Mae Adran pedwar yn egluro sut y gallwch chi fodloni'r safonau DPP.
– Mae Adran pump yn egluro beth sy'n digwydd os cewch chi archwiliad.
– Mae Adran chwech yn darparu canllawiau ynglŷn â chwblhau proffil DPP.
– Mae Adran saith yn rhoi manylion cysylltu ar gyfer rhagor o wybodaeth.

### Iaith

Drwy'r holl ddogfen hon:

– Mae 'gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal' neu rywun 'cofrestredig' yn cyfeirio at weithiwr proffesiynol sydd ar ein Cofrestr;
– Mae 'defnyddiwr gwasanaeth' yn cyfeirio at unrhyw un sy'n defnyddio ymarfer rhywun cofrestredig neu'n cael ei effeithio ganddo;
– Mae 'y safonau' yn cyfeirio at y safonau DPP;
– Mae 'ni' yn cyfeirio at y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC); ac
– Mae 'chi' neu 'eich' yn cyfeirio at rywun cofrestredig.

## Amdanom ni

Rydym yn rheoleiddiwr a chawsom ein sefydlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd. I wneud hynny, rydym yn cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n bodloni ein safonau o ran eu sgiliau a'u hymddygiad proffesiynol. Dywedir bod y rai sydd ar ein cofrestr yn 'gofrestredig'.

Ar hyn o bryd, rydym yn rheoleiddio 15 proffesiwn:

– Therapyddion celf
– Gwyddonwyr biofeddygol
– Ciropodyddion / podiatryddion
– Gwyddonwyr clinigol
– Deietegwyr
– Cyflenwyr cymhorthion clyw
– Therapyddion galwedigaethol
– Ymarferwyr adrannau llawfeddygol
– Orthoptyddion
– Parafeddygon
– Ffisiotherapyddion
– Ymarferwyr seicoleg
– Prosthetwyr / orthotyddion
– Radiograffwyr
– Therapyddion iaith a lleferydd

# Adran 2 – Crynodeb

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'n gofynion i'r rhai sy'n gofrestredig.

## DPP a chofrestru

– DPP ydy'r ffordd y byddwch yn parhau i ddysgu a datblygu drwy gydol eich gyrfa er mwyn i chi gadw'ch sgiliau a'ch gwybodaeth yn gyfoes a gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

– Nid cyrsiau ffurfiol yn unig ydy DPP, ond unrhyw weithgaredd y byddwch chi'n dysgu ac yn datblygu o ganlyniad iddo.

– Mae DPP yn un o ofynion eich cofrestriad, felly mae angen i chi fodloni ein safonau DPP er mwyn parhau'n gofrestredig.

## Bodloni'r safonau DPP

Mae angen i chi wneud y pethau canlynol.

– Cyflawni DPP yn rheolaidd a chadw cofnod o'r hyn a wnewch yn y modd sydd fwyaf cyfleus i chi.

– Cyflawni gwahanol fathau o weithgareddau dysgu.

– Meddwl am sut y gallai eich DPP wella eich ymarfer a bod o fudd i ddefnyddwyr eich gwasanaeth.

– Cymryd rhan mewn archwiliad os byddwn ni'n gofyn i chi wneud hynny. Rydym yn archwilio sampl ar hap o bob proffesiwn wrth adnewyddu bob tro.

## Os cewch chi eich archwilio

Dim ond os byddwch wedi bod yn gofrestredig ers dwy flynedd neu fwy y byddwch yn ffurfio rhan o'r sampl a ddewisir ar gyfer archwiliad. Os cewch eich dewis ar gyfer archwiliad, bydd angen i chi wneud y pethau canlynol.

– Adnewyddu eich cofrestriad drwy gwblhau'r datganiadau proffesiynol a thalu'r ffi cofrestru (fel y byddech yn ei wneud fel arfer).

– Cwblhau proffil DPP yn egluro sut rydych chi wedi bodloni'r safonau a'i anfon atom erbyn y dyddiad cau a osodir.

– Darparu tystiolaeth ategol gyda'ch proffil DPP i ddangos i ni eich bod wedi cyflawni DPP sy'n bodloni'r safonau. Peidiwch ag anghofio cynnwys rhestr â dyddiadau o'r holl weithgareddau rydych wedi'u cyflawni ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad. Egluro unrhyw fylchau yn eich DPP o dri mis olynol neu fwy.

# Adran 3 – Gwybodaeth am y safonau DPP

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o wybodaeth am y safonau DPP a pham maen nhw gennym ni.

## Beth yw DPP?

DPP ydy'r ffordd y mae rhai sy'n gofrestredig yn parhau i ddysgu a datblygu drwy gydol eu gyrfaoedd er mwyn iddynt gadw'u sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfoes a gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Nid cyrsiau ffurfiol yn unig ydy DPP. Gweithgaredd DPP ydy unrhyw weithgaredd y byddwch chi'n dysgu ac yn datblygu o ganlyniad iddo. Gallai hynny gynnwys y canlynol.

- **Dysgu seiliedig ar waith.** Er enghraifft, myfyrio ynglŷn â phrofiadau yn y gwaith, ystyried adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth neu fod yn aelod o bwyllgor.
- **Gweithgaredd proffesiynol.** Er enghraifft, ymwneud â chorff proffesiynol neu roi cyflwyniad mewn cynhadledd.
- **Addysg ffurfiol.** Er enghraifft, mynd ar gyrsiau ffurfiol neu gyflawni ymchwil.
- **Dysgu hunangyfeiriedig.** Er enghraifft, darllen erthyglau neu lyfrau.

Rydym wedi darparu rhestr hirach o weithgareddau DPP posib yn atodiad 1. Nid yw'n rhestr gyflawn, a gall fod gweithgareddau eraill nad ydynt wedi'u rhestru sydd yn eich helpu i ddysgu a datblygu ac sy'n gallu bod yn rhan o'ch DPP.

## Safonau DPP

Mae DPP yn gysylltiedig â chofrestru, felly mae angen i chi fodloni ein safonau DPP er mwyn parhau'n gofrestredig.

Mae pump o safonau DPP.

Rhaid i rywun sy'n gofrestredig:

1. gadw cofnod parhaus o'u gweithgareddau DPP sydd wedi'i ddiweddaru ac yn gywir;
2. dangos bod eu gweithgareddau DPP yn gymysgedd o weithgareddau dysgu sy'n berthnasol i ymarfer yn y presennol neu'r dyfodol;
3. ceisio sicrhau bod eu DPP wedi cyfrannu at ansawdd eu hymarfer a'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt;
4. ceisio sicrhau bod eu DPP o fudd i ddefnyddiwr y gwasanaeth; a
5. pan ofynnir am hynny, cyflwyno proffil ysgrifenedig (ac mae'n rhaid mai eu gwaith eu hunain fydd hwnnw a'i fod wedi'i ategu â thystiolaeth) sy'n egluro sut maent wedi bodloni'r Safonau ar gyfer DPP.

Yn adran pedwar, rydym yn egluro beth mae angen i chi ei wneud er mwyn bodloni pob un o'r safonau.

## Dull hyblyg sy'n seiliedig ar ddeilliannau

Rydym wedi datblygu ein dull o ymdrin â DPP er mwyn iddo fod yn ddigon hyblyg i ystyried yr amrywiaeth o wahanol weithwyr proffesiynol iechyd a gofal sy'n gofrestredig gyda ni, rolau gwaith ac anghenion dysgu gwahanol ac amrywiaeth o ran mynediad y rhai sy'n gofrestredig at wahanol fathau o DPP.

Nid ydym yn gosod nifer o oriau neu bwyntiau y mae angen i chi eu cwblhau ac nid ydym yn 'cymeradwyo' neu'n 'ardystio' unrhyw weithgareddau DPP. Yn hytrach, rydym eisiau i chi nodi eich anghenion datblygu a dewis gweithgareddau addas i'ch helpu i'w cyflawni. Mae llawer mwy o ddiddordeb gennym yn neilliannau eich dysgu a sut mae hyn wedi bod o fudd i'ch ymarfer a'r defnyddwyr gwasanaeth y byddwch yn gweithio â hwy.

Mae hyn yn golygu y gallwch chi gynllunio eich DPP ar sail y mathau o weithgareddau sydd fwyaf perthnasol i chi a'ch ymarfer.

## Rôl cyflogwyr

Rydym yn rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal unigol ac nid oes gennym unrhyw rôl yn rheoleiddio cyflogwyr. Felly, cyfrifoldeb personol ydy'r safonau DPP y mae angen i bawb sy'n gofrestredig eu bodloni er mwyn parhau'n gofrestredig gyda ni.

Fodd bynnag, bydd cyflogwyr cyfrifol eisiau annog dysgu a datblygu gan y rhai sy'n gyflogedig ganddynt er mwyn sicrhau bod y gweithwyr hynny'n parhau ar y Gofrestr. Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â chyflogwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r safonau a'r hyn y maent yn ei olygu i'w gweithwyr cyflogedig.

## DPP ac addasrwydd i ymarfer

Mae DPP yn gysylltiedig â chofrestru a gallwn eich tynnu o'r Gofrestr os na fyddwch yn bodloni ein safonau DPP.

Mae gennym broses ar wahân (ein proses addasrwydd i ymarfer) ar gyfer ymdrin â phryderon ynglŷn ag ymddygiad a chymhwystra y rhai sy'n gofrestredig gyda ni.

Er nad oes cysylltiad uniongyrchol â'r broses addasrwydd i ymarfer, hanfod ein safonau ar gyfer DPP ydy gwneud yn siŵr eich bod yn parhau i ddysgu a datblygu er mwyn i chi allu parhau'n addas i ymarfer a gwella eich ymarfer er budd defnyddwyr eich gwasanaeth.

# Adran 4 – Bodloni'r safonau

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gallwch chi fodloni'r safonau. Mae rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau yn adran pump.

## Rhagor o fanylion am y safonau

Rydym wedi cymryd pob un o'r safonau isod ac egluro beth mae'n ei olygu.

**Safon 1: Rhaid i unigolyn cofrestredig gadw cofnod parhaus o'u gweithgareddau DPP sydd wedi'i ddiweddaru ac yn gywir**

**Beth mae'r safon yn ei olygu**

– Mae angen i chi gyflawni gweithgareddau DPP yn rheolaidd – gallwch weld enghreifftiau o'r rhain yn atodiad 1.

– Mae angen i chi gadw cofnod o'r hyn a wnewch ym mha bynnag fodd sydd fwyaf cyfleus i chi.

– Mae angen i chi ychwanegu at eich cofnod yn barhaus. Os cewch chi eich archwilio, bydd diddordeb gennym yn yr hyn rydych wedi'i wneud dros y ddwy flynedd flaenorol (hyd pob cylch cofrestru).

– Mae angen i'ch cofnod fod yn adlewyrchiad cywir o'r gweithgareddau rydych wedi'u cyflawni.

**Cadw eich cofnod**

Nid ydym yn gofyn am fformat penodol ar gyfer cofnodi eich DPP. Gallech chi ddewis cadw ffolder yn cynnwys dogfennau megis tystysgrifau a nodiadau y gallech fod wedi'u gwneud mewn perthynas â'ch DPP, neu gallech chi gadw'r cofnod hwn yn electronig. Gallech chi ddilyn fformat a ddarperir gan eich corff proffesiynol neu gan eich cyflogwr. Cofiwch sicrhau y gallwch chi gael mynediad at eich cofnod – er enghraifft, os byddwch yn gadael eich cyflogwr.

Eich cofnod personol chi yw hwn. Fyddwn ni ddim yn gofyn am gael gweld copi cyflawn, ond petaech chi'n cael eich archwilio, byddem yn gofyn i chi roi manylion y gweithgareddau rydych chi wedi'u cyflawni dros y ddwy flynedd flaenorol ac anfon tystiolaeth ategol atom ni. Felly bydd cadw cofnod da yn golygu y gallwch chi wneud hyn yn rhwydd. Gallwch chi weld enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth y gallech chi fod am eu cadw yn atodiad 2.

**Safon 2: Rhaid i unigolyn cofrestredig ddangos bod eu gweithgareddau DPP yn gymysgedd o weithgareddau dysgu sy'n berthnasol i ymarfer yn y presennol neu'r dyfodol**

**Beth mae'r safon yn ei olygu**

– Rhaid i'ch DPP gynnwys cymysgedd o wahanol fathau o ddysgu.

– Rhaid i'ch DPP fyd yn berthnasol i'ch cofrestriad a'ch ymarfer fel gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal.

**Cymysgedd o weithgareddau**

Rhaid i'ch DPP gynnwys cymysgedd o wahanol fathau o ddysgu. Mae hynny'n golygu bod angen i chi gyflawni o leiaf ddau fath gwahanol o weithgaredd dysgu. Mewn gwirionedd, bydd y rhan fwyaf o'r rhai sy'n gofrestredig yn cyflawni nifer o wahanol fathau o ddysgu tra byddant yn gofrestredig gyda ni. Rydym wedi darparu rhestr hirach o weithgareddau DPP posib yn atodiad 1.

Petaech chi'n cael eich archwilio ac mai dim ond un math o ddysgu y byddech chi wedi'i gyflawni – er enghraifft, petaech chi wedi darllen cyfnodolion proffesiynol ond heb gyflawni unrhyw fath arall o ddysgu – fyddech chi ddim yn bodloni'r safon hon.

**Eich ymarfer**

Rhaid i'ch DPP fod yn berthnasol i'ch ymarfer yn y presennol neu'r dyfodol. Mae hynny'n golygu y dylai eich DPP fod yn gysylltiedig mewn rhyw fodd â'ch cofrestriad fel gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal.

Bydd eich DPP yn berthnasol i'ch ymarfer, felly bydd yn unigryw i chi fel unigolyn. Er enghraifft, os ydych chi'n rheoli tîm, gallai rhywfaint o'ch

DPP fod yn gysylltiedig â'ch sgiliau fel rheolwr. Os ydych chi'n gweithio mewn practis preifat, gallai rhywfaint o'ch DPP ymwneud â'r sgiliau y mae eu hangen arnoch er mwyn cynnal practis llwyddiannus.

Gall eich DPP gefnogi datblygiad eich gyrfa hefyd. Felly gallai rhywfaint neu'r cyfan o'ch DPP fod yn gysylltiedig â'ch paratoi chi ar gyfer rôl yn y dyfodol.

Os oes gennych nodyn ar eich cofrestr (er enghraifft, ar gyfer rhoi presgripsiynau), byddem yn eich annog yn benodol i ystyried a oes angen i chi gyflawni rhywfaint o weithgareddau DPP er mwyn sicrhau bod eich ymarfer yn y maes hwnnw'n cadw'n gyfoes.

Rydych chi'n gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun ynglŷn â'r DPP sydd o fwyaf o fudd i chi, eich ymarfer a'ch dyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol.

**Gweithgareddau rhyngweithiol**

Mae yna dystiolaeth sy'n datblygu sy'n awgrymu mai'r gweithgareddau dysgu mwyaf effeithiol yn aml ydy'r rhai sy'n 'rhyngweithiol' ac sy'n annog 'hunanystyried'. Er enghraifft, mae 'trafodaeth cymheiriaid' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyfleoedd i drafod materion sy'n ymwneud ag ymarfer gyda grwpiau o gydweithwyr proffesiynol. Er nad yw hyn yn ofyniad penodol, byddem yn eich annog i chwilio am gyfleoedd i ddysgu a myfyrio ynglŷn â'ch ymarfer gyda phobl eraill.

## Safon 3: Rhaid i unigolyn cofrestredig geisio sicrhau bod eu DPP wedi cyfrannu at ansawdd eu hymarfer a'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt

**Beth mae'r safon yn ei olygu**

– Dylech chi anelu at sicrhau bod eich DPP yn gwella'r ffordd rydych chi'n gweithio.

– Petaech chi'n cael eich archwilio, byddem yn gofyn i chi ddweud wrthym am rai o'r gweithgareddau rydych wedi'u cyflawni, beth rydych wedi'i ddysgu a sut mae hyn wedi gwella eich ymarfer.

**Ansawdd ymarfer a'r gwasanaeth a ddarperir**

Dylai eich DPP beri i chi wneud newidiadau i'r ffordd rydych yn gweithio sy'n gwella'r gwasanaeth rydych yn ei ddarparu.

Does dim rhaid i chi wneud newidiadau drastig i'r ffordd rydych yn gweithio. Gallai rhai gweithgareddau DPP olygu eich bod yn parhau i weithio yn yr un modd ag o'r blaen, ond eich bod yn fwy hyderus eich bod yn gweithio'n effeithiol.

Gallai gweithgareddau eraill eich helpu i gael sgiliau newydd neu neu'ch helpu i wneud newidiadau i'ch arferion gwaith.

**'Ceisio sicrhau'**

Rydym yn defnyddio'r term 'ceisio sicrhau' yn safon 3 oherwydd y gall fod rhai achosion pan nad yw'r gweithgaredd DPP a gyflawnoch er mwyn gwella eich ymarfer mor effeithiol ag yr oeddech yn meddwl y byddai. Dydych chi ddim yn gallu rhagweld gwir fanteision gweithgareddau DPP bob tro. Y peth pwysig ydy ystyried pam nad oedd y gweithgaredd mor ddefnyddiol ag yr oeddech yn meddwl y byddai, a sut y gallech chi wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol. Cyn belled â'ch bod yn gallu egluro hynny os gofynnir i chi, byddwch chi'n dal i fodloni'r safon hon.

## Safon 4: Rhaid i unigolyn cofrestredig geisio sicrhau bod eu DPP o fudd i ddefnyddwyr y gwasanaeth

**Beth mae'r safon yn ei olygu**

– Dylech chi anelu at sicrhau bod eich DPP o fudd i ddefnyddwyr eich gwasanaeth.

– Petaech chi'n cael eich archwilio, byddem yn gofyn i chi ddweud wrthym am rai o'r gweithgareddau rydych wedi'u cyflawni, beth rydych wedi'i ddysgu a sut mae hyn wedi bod o fudd i ddefnyddwyr eich gwasanaeth.

**O fudd i ddefnyddwyr y gwasanaeth**

At ddibenion y safon hon, rydym yn diffinio 'defnyddiwr y gwasanaeth' fel unrhyw un sy'n defnyddio eich gwasanaethau neu y mae eich gwaith yn effeithio arnynt.

Bydd defnyddwyr eich gwasanaeth yn dibynnu ar sut a ble byddwch chi'n gweithio. Er enghraifft:

– os ydych chi mewn ymarfer 'rheng flaen' neu sydd wedi'i leoli mewn labordy, gallai defnyddwyr eich gwasanaeth gynnwys cleifion, cleientiaid, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill a phobl eraill rydych yn darparu gwasanaethau iddynt;

– os ydych yn gweithio mewn addysg, gallai defnyddwyr eich gwasanaeth gynnwys eich myfyrwyr; ac

– os ydych chi'n rheolwr, gallai defnyddwyr eich gwasanaeth gynnwys y tîm rydych yn ei reoli.

Nid yw'r uchod yn rhestr gyflawn, felly bydd angen i chi feddwl ynglŷn â phwy ydy defnyddwyr eich gwasanaeth.

Dylai eich DPP arwain at fanteision i ddefnyddwyr eich gwasanaeth. Does dim angen i'r manteision hyn fod yn rhai radical ac mewn nifer o achosion, gallant ddod o ganlyniad i welliannau rydych wedi'u gwneud i'ch ymarfer. Er enghraifft, mae gweithgaredd DPP wedi gwella eich ymarfer oherwydd eich bod wedi ennill sgiliau newydd, ac o ganlyniad rydych yn gallu darparu gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr eich gwasanaeth. Mae'r safon hon yn gofyn i chi

feddwl am sut mae eich DPP wedi bod o fudd i'r bobl rydych chi'n gweithio â nhw ac y mae eich ymarfer yn effeithio arnynt.

**'Ceisio sicrhau'**

Rydym yn defnyddio'r ymadrodd 'ceisio sicrhau' yn safon 4 oherwydd y gallech chi gyflawni gweithgaredd DPP er mwyn darparu manteision i ddefnyddwyr y gwasanaeth, ond eich bod yn canfod nad yw mor ddefnyddiol ag yr oeddech wedi'i ddisgwyl. Cyn belled â'ch bod yn meddwl ynglŷn â pham nad oedd y gweithgaredd yn ddefnyddiol a beth byddech chi'n ei wneud yn y dyfodol yn lle hynny, a'ch bod yn gallu egluro hynny os gofynnir i chi, byddwch chi'n dal i fodloni'r safon hon.

**Adborth trydydd-parti**

Mae gofyn am, derbyn a myfyrio ynglŷn ag adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a chymheiriaid yn gallu helpu i wella ymarfer a helpu i adnabod anghenion dysgu ar gyfer y dyfodol.

Er nad yw hyn yn ofyniad penodol, byddem yn eich annog i ofyn am adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ac eraill a myfyrio ynglŷn â'r adborth hwnnw. Gall yr adborth hwn hefyd fod yn eitem ddefnyddiol o dystiolaeth i ategu'r ffaith eich bod wedi bodloni safon pedwar (gweler adran chwech).

**Safon 5: Rhaid i unigolyn cofrestredig, pan ofynnir am hynny, gyflwyno proffil ysgrifenedig (ac mae'n rhaid mai eu gwaith eu hunain fydd hwnnw a'i fod wedi'i ategu â thystiolaeth) sy'n egluro sut maent wedi bodloni'r Safonau ar gyfer DPP**

**Beth mae'r safon yn ei olygu**

– Dim ond os byddwch chi'n un o'r bobl gofrestredig a ddewisir fel rhan o hap-sampl ar gyfer archwiliad y bydd angen i chi fodloni'r safon hon.

– Rhaid i chi gymryd rhan yn yr archwiliad drwy anfon proffil DPP atom yn cynnwys gwybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â sut rydych wedi bodloni'r safonau.

– Rhaid mai eich gwaith eich hunan ydy'r proffil DPP.

Rydym yn egluro mwy am gymryd rhan mewn archwiliad a chwblhau proffil DPP yn adrannau pump a chwech.

### Eich gwaith eich hunan

Os cewch chi eich archwilio, rhaid mai eich gwaith eich hunan ydy'r proffil DPP. Fyddai proffil sydd wedi'i ysgrifennu gan rywun arall, neu sy'n cynnwys testun o broffiliau a baratowyd gan bobl eraill, ddim yn bodloni'r safon hon.

Os byddwn yn amau nad eich gwaith eich hunan ydy proffil DPP ond ei fod, er enghraifft, yn cynnwys deunydd wedi'i lên-ladrata, byddem yn atal y broses asesu ac yn ymchwilio i hyn dan ein proses addasrwydd i ymarfer.

Nid yw hyn yn golygu na allwch chi ofyn i gydweithiwr am gymorth a byddem yn eich annog i drafod eich archwiliad DPP gyda'ch cydweithwyr os byddwch chi'n teimlo bod angen cymorth arnoch.

## Cynlluniau DPP

Gan fod ein safonau'n seiliedig ar ddeilliannau, mae llawer o wahanol ffyrdd y gallech eu bodloni.

Gallech chi fodloni ein gofynion drwy ddewis cymryd rhan mewn cynllun a gynhelir gan eich corff proffesiynol, eich cyflogwr neu unrhyw sefydliad arall. Bydd y rhan fwyaf o gynlluniau DPP yn rhoi'r cyfle i chi fodloni ein safonau ac maent yn cynnig ffordd ddefnyddiol o strwythuro a chofnodi eich gweithgareddau DPP.

Oherwydd nad ydym yn cymeradwyo unrhyw gynlluniau DPP, mae dal angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn fodlon y bydd cymryd rhan mewn cynllun yn eich galluogi i fodloni ein safonau. Petaech chi'n cael eich archwilio, byddech chi'n defnyddio'r gwahanol weithgareddau y byddech wedi'u cyflawni yn rhan o'r cynllun i ddangos sut rydych wedi bodloni ein safonau.


Mae ein safonau DPP yn gydnaws hefyd â fframweithiau DPP a gyhoeddir weithiau gan ddarparwyr gwasanaethau neu gan gyrff proffesiynol ac sy'n cysylltu dysgu a datblygu â datblygiadau a chynnydd mewn gyrfaoedd.

# Adran 5 – Y broses archwilio

Mae'r adran hon yn egluro mwy am y broses archwilio. Os byddwn ni'n eich dewis chi yn rhan o'r hap-sampl ar gyfer archwiliad, byddwn yn anfon gwybodaeth atoch ynglŷn â beth yn union y mae angen i chi ei wneud.

## Crynodeb o'r broses archwilio

Yn dilyn mae crynodeb syml o'r broses archwilio.



## Rhagor o fanylion am y broses archwilio.

### Dewis ar gyfer archwiliad

Mae pob proffesiwn yn adnewyddu ei gofrestriad bob dwy flynedd. Pan fyddwch chi'n adnewyddu eich cofrestriad, byddwn yn gofyn i chi gwblhau datganiad i gadarnhau eich bod wedi bodloni ein safonau, gan gynnwys y safonau ar gyfer DPP.

Rydym yn archwilio sampl ar hap o 2.5 y cant o'r rhai sy'n gofrestredig ym mhob proffesiwn wrth adnewyddu bob tro ac yn gofyn i'r unigolion hynny anfon gwybodaeth atom a thystiolaeth eu bod wedi bodloni'r safonau DPP. Rydym yn ailystyried y ganran hon yn rheolaidd a gallem ei newid yn y dyfodol.

Dim ond rhai sydd wedi bod yn gofrestredig ers dwy flynedd neu fwy y byddwn yn eu harchwilio. Mae hyn yn golygu, os ydych chi wedi graddio'n ddiweddar, fyddwn ni

ddim yn eich dewis chi ar gyfer archwiliad pan fyddwch chi'n adnewyddu eich cofrestriad am y tro cyntaf. Yn yr un modd, os byddwch chi wedi cael toriad yn eich cofrestriad a'ch bod newydd ddod yn ôl i'r Gofrestr, fyddwn ni ddim yn eich dewis chi y tro cyntaf y byddwch yn adnewyddu eich cofrestriad.

Mae'r dewis ar gyfer archwilio yn broses a gaiff ei chyflawni gan gyfrifiadur ar hap. Gan fod DPP yn ofyniad parhaus tra byddwch chi'n gofrestredig, mae'n bosib y gallech chi gael eich dewis ar gyfer archwiliad ar fwy nag un achlysur.

### Cwblhau'r archwiliad

Os cewch eich dewis yn rhan o'r hap-sampl ar gyfer archwiliad, byddwn yn anfon gwybodaeth atoch ynglŷn â chwblhau eich proffil DPP. Bydd angen i chi

gwblhau eich proffil a'i anfon atom erbyn dyddiad cau adnewyddu eich cofrestriad. Os bydd amgylchiadau'n golygu na allwch chi gymryd rhan mewn archwiliad, gallwch chi wneud cais i ohirio eich archwiliad (gweler tudalen 14).

Byddwch chi'n cael tua tri mis i gwblhau eich proffil a'i anfon atom. Byddwn ni'n eich atgoffa hefyd tua mis cyn y terfyn amser. Gallwch chi weld enghreifftiau o broffiliau DPP wedi'u cwblhau ar ein gwefan.

Os na fyddwch chi'n anfon proffil DPP neu unrhyw wybodaeth y gofynnwn amdani fel rhan o'r broses archwilio, gallwn eich tynnu o'r Gofrestr. Byddech chi'n gallu apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw (gweler tudalen 13).

Mae angen hefyd i chi adnewyddu eich cofrestriad fel y byddech yn arfer ei wneud – drwy gwblhau'r datganiadau adnewyddu a thalu'r ffi cofrestru.

Os nad ydych yn adnewyddu eich cofrestriad, byddwn yn eich tynnu o'r Gofrestr.

Mae'n bosib na fyddwn yn gallu asesu eich proffil erbyn diwedd eich cylch cofrestru. Os bydd hynny'n digwydd a'ch bod wedi cwblhau eich adnewyddiad, byddwn yn adnewyddu eich cofrestriad yn y modd arferol fel bod modd i chi barhau i ymarfer. Wedyn byddwn ni'n parhau i asesu eich proffil.

### Pan fyddwn wedi derbyn eich proffil

Pan fyddwn ni'n derbyn eich proffil wedi'i gwblhau, byddwn ni'n gwirio ei fod yn gyflawn (er enghraifft, eich bod chi wedi cynnwys tystiolaeth). Os oes rhywbeth yn eisiau, byddwn yn gofyn i chi am y wybodaeth sy'n eisiau.

Byddwn yn gofyn i aseswyr DPP asesu eich proffil DPP yn unol â'r safonau. Mae'r aseswyr DPP yn unigolion cofrestredig sy'n cael eu penodi a'u hyfforddi gennym ni i asesu proffiliau, a bydd o leiaf un ohonyn nhw o'r un proffesiwn â chi. Yn atodiad 3, rydym wedi torri pob safon i lawr i 'feini prawf asesu', felly gallwch chi weld sut beth fyddai bodloni a pheidio â bodloni safon.

Tra byddwn ni'n asesu eich proffil (a phe baech chi'n apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad), byddwch chi'n parhau'n gofrestredig ac yn gallu parhau i ymarfer.

**Canlyniadau asesu**

Unwaith y byddwn ni wedi asesu eich proffil, mae tri chanlyniad posib.

– **Mae eich proffil yn bodloni'r safonau.** Byddwn yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybod i chi.

– **Rydym yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth.** Byddwn yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth y mae ei hangen arnom er mwyn penderfynu a ydych chi'n bodloni'r safonau DPP.

– **Nid yw eich proffil yn bodloni'r safonau.**

Os nad yw eich proffil yn bodloni'r safonau, bydd yr aseswyr DPP yn penderfynu wedyn a gynigir amser ychwanegol i chi ai peidio (hyd at dri

mis ychwanegol) i fodloni'r safonau. Byddwn ni'n gofyn i chi am ragor o wybodaeth fel arfer cyn gwneud y penderfyniad hwn.

Bydd yr aseswyr DPP yn penderfynu a ddylid cynnig amser ychwanegol i chi drwy ystyried:

– a ydych chi wedi gwneud ymdrech resymol i ddarparu proffil DPP cyflawn;

– a ydych chi wedi bodloni rhai o'r safonau; a

– gydag amser ychwanegol, a fyddai modd i chi i fodloni'r safonau.

Mae hi'n debygol iawn y bydd amser ychwanegol yn cael ei gynnig i chi os yw'n amlwg i'r aseswyr eich bod yn ymrwymedig i DPP ond eich bod am ba bynnag reswm wedi cael anhawster yn bodloni rhai o'r safonau DPP yn llawn.

Os byddwn ni'n rhoi amser ychwanegol i chi fodloni'r safonau, byddwn ni'n cysylltu â chi i ddweud wrthoch chi beth mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd. Gallai hynny gynnwys, er enghraifft, cyflawni rhagor o DPP neu gwblhau proffil newydd. Bydd angen i chi anfon y wybodaeth y byddwn yn gofyn amdani i ni ac wedyn byddwn yn ei hasesu.

Os nad ydych yn bodloni'r safonau, byddwn yn eich tynnu o'r Gofrestr. Beth bynnag yw'r penderfyniad a wnawn, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw ein penderfyniad a'r rhesymau dros hynny.

**Apelio**

Os byddwn ni'n penderfynu nad yw eich proffil DPP yn bodloni ein safonau, neu os na fyddwch chi wedi cymryd rhan neu wedi cwblhau'r broses archwilio, a'n bod ni'n penderfynu eich tynnu o'r Gofrestr, gallwch chi apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Byddwch chi'n gallu dweud wrthon ni pam rydych chi'n meddwl bod y penderfyniad hwn yn anghywir.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi beth yn union y bydd angen i chi ei wneud ac erbyn pryd. Os byddwch chi'n apelio, byddwch chi'n parhau ar y Gofrestr nes bydd penderfyniad wedi'i wneud. Bydd eich apêl yn cael ei hystyried gan banel apêl. Gallwch chi ddewis mynd i wrandawiad apêl neu ofyn i'ch apêl gael ei hystyried ar sail y dogfennau a anfonir gennych i'r panel.

Gall y panel apêl benderfynu:

– cytuno â chi a chaniatáu i chi barhau'n gofrestredig;

– gwrthod yr apêl, felly bydd ein penderfyniad gwreiddiol i'ch tynnu chi o'r Gofrestr yn sefyll; neu

– gofyn i ni asesu eich proffil DPP eto.

Os na fyddwch chi'n cytuno â phenderfyniad y panel, gallwch chi apelio i'r Llys Sirol yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon neu i Lys Siryf lleol yn yr Alban.

**Dod yn ôl ar y Gofrestr**

Os byddwn ni'n penderfynu nad yw eich proffil DPP yn bodloni ein safonau, neu os na fyddwch chi wedi cymryd rhan neu wedi cwblhau'r broses archwilio, a'n bod ni'n penderfynu eich tynnu o'r Gofrestr, byddwch chi'n gallu gwneud cais i ni i gael eich cofrestru eto yn y dyfodol.

Er mwyn dod yn ôl ar y Gofrestr, bydd angen i chi ymgeisio am gael eich 'aildderbyn'. Byddwn ni'n gofyn i chi am ragor o wybodaeth ynglŷn â pham daethoch chi oddi ar y Gofrestr yn flaenorol ac am y DPP yr ydych yn bwriadu ei gyflawni os cewch chi eich cofrestru eto. Byddwn ni wedyn yn ystyried y wybodaeth hon cyn gwneud penderfyniad terfynol ynglŷn â'ch cais. Os byddwn ni'n eich ailgofrestru, byddwn yn eich cynnwys yn yr archwiliad DPP nesaf ar gyfer eich proffesiwn.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am ymgeisio i gael eich aildderbyn ar ein gwefan.

**Gohirio**

Os byddwn ni'n eich dewis chi yn rhan o'r hap-sampl ar gyfer archwiliad, ond eich bod chi'n methu cymryd rhan oherwydd eich amgylchiadau, gallwch chi ofyn i ni ohirio eich archwiliad. Gallai hynny fod oherwydd salwch difrifol, profedigaeth neu absenoldeb mamolaeth.

Byddwn ni'n gofyn i chi anfon tystiolaeth i ni ynglŷn â pham na allwch chi gymryd rhan. Byddwn ni eisiau gwneud yn siŵr y bydd gohirio eich archwiliad yn deg i chi ac i'r unigolion cofrestredig eraill sydd wedi cael eu harchwilio. Os caiff eich archwiliad ei ohirio, byddwch chi'n cael eich dewis yn awtomatig ar gyfer archwiliad y tro nesaf y bydd eich proffesiwn yn adnewyddu ei gofrestriad.

Chi sydd i ddewis a ydych chi am wneud cais am ohirio ai peidio. Er enghraifft, efallai y byddwch yn teimlo eich bod yn gallu cymryd rhan mewn archwiliad hyd yn oed os byddwch chi wedi bod ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb salwch am ran sylweddol o'r cylch cofrestru dwy-flynedd. Os felly, gallech chi ddewis cymryd rhan yn yr archwiliad a gwneud eich amgylchiadau'n amlwg yn eich proffil.

# Adran 6 – Rhoi eich proffil DPP at ei gilydd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r hyn y bydd angen i ni ei gael gennych os byddwn ni'n eich dewis chi yn rhan o'r hap-sampl ar gyfer archwiliad.

Os byddwn ni'n eich dewis chi ar gyfer archwiliad, byddwn ni'n rhoi rhagor o wybodaeth i chi am beth mae angen i chi ei wneud, sut ac erbyn pryd. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am yr addasiadau rhesymol y gallwn eu rhoi yn eu lle os ydych chi'n anabl.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn 'Sut i gwblhau eich proffil Datblygu Proffesiynol Parhaus' sydd ar gael ar ein gwefan. Gallwch chi hefyd weld proffiliau DPP enghreifftiol ar gyfer pob proffesiwn sy'n dangos gwahanol ffyrdd o gwblhau eich proffil a bodloni'r safonau.

## Crynodeb o'r proffil

Mae pedair rhan i'r proffil.

– **Crynodeb o hanes eich ymarfer (hyd at 500 gair).** Yn yr adran hon, rydym yn gofyn i chi ddisgrifio eich rôl bresennol a'r math o waith rydych yn ei wneud. Rydym yn gofyn am y wybodaeth hon er mwyn i ni allu asesu a yw eich DPP yn berthnasol i'ch ymarfer yn y presennol neu'r dyfodol (safon dau).

– **Datganiad ynglŷn â sut rydych wedi bodloni'r safonau (hyd at 1,500 o eiriau).** Yn yr adran hon, rydym yn gofyn i chi gyfeirio at y gweithgareddau DPP rydych wedi'u cyflawni er mwyn dangos i ni sut rydych chi'n bodloni'r safonau.

– **Rhestr â dyddiadau o'r gweithgareddau DPP rydych wedi'u cyflawni ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad.**

– **Tystiolaeth ategol.** Rydym yn gofyn i chi roi tystiolaeth i ni sy'n dangos bod y gweithgareddau DPP rydych wedi ysgrifennu amdanynt yn y proffil wedi digwydd.

## Ysgrifennu eich datganiad

Yn eich datganiad, byddwch chi'n canolbwyntio'n bennaf ar ddweud wrthon ni sut rydych chi'n bodloni safonau tri a phedwar – sut mae eich gweithgareddau DPP yn gwella ansawdd eich gwaith ac o fudd i ddefnyddwyr eich gwasanaeth.

Un ffordd i gwblhau eich datganiad ydy dewis rhwng chwech a phedwar o weithgareddau DPP rydych wedi'u cyflawni ac ar gyfer pob un, disgrifio:

– beth oedd y gweithgaredd;

– beth ddysgoch chi; a

– sut rydych chi'n meddwl mae'r gweithgaredd wedi gwella ansawdd eich gwaith ac wedi bod o fudd i ddefnyddwyr eich gwasanaeth.

Gallwch chi ddewis dweud wrthon ni am y gweithgareddau rydych chi'n meddwl fuodd o fwyaf o fudd i chi ac y mae gennych chi dystiolaeth ategol ar eu cyfer. Mae ysgrifennu eich datganiad fel hyn yn gallu bod yn ffordd eglur a syml o ddangos i ni sut rydych wedi bodloni'r safonau.

Fodd bynnag, mae mwy nag un ffordd o gwblhau eich datganiad, felly dim ond awgrym ydy hyn. Ymhlith y ffyrdd eraill posib, mae defnyddio eich cynllun datblygu proffesiynol neu gynllun tebyg (os oes gennych un) neu strwythuro eich datganiad o amgylch pob un o'r safonau DPP.

## Tystiolaeth ategol

Mae angen i chi anfon y dystiolaeth ganlynol atom.

– **Rhestr â dyddiadau o'r holl weithgareddau DPP rydych wedi'u cyflawni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf** (ers y tro diwethaf i chi adnewyddu eich cofrestriad). Mae hyn yn dangos i ni eich bod chi wedi cyflawni DPP ac wedi cynnal cofnod (safon un).

Gallai eich rhestr â dyddiadau fod yn rhywbeth rydych chi'n ei lunio o ganlyniad i'r archwiliad, drwy edrych ar eich cofnod DPP, neu gallai fod yn rhywbeth y gallwch ei gynhyrchu'n awtomatig os ydych chi'n defnyddio system cadw cofnodion electronig.

Rhaid i'ch cofnod DPP fod yn 'barhaus' (safon un) ond rydym yn sylweddoli na fydd gweithgareddau DPP o anghenraid wedi'u cynnal yn unol ag amserlen reolaidd yn ystod eich cylch cofrestru. Os oes gennych fwlch yn eich gweithgareddau DPP o dri mis olynol neu fwy, eglurwch pam yn eich datganiad. Gallai rhai gweithgareddau gael eu cynnal dros gyfnod o amser yn hytrach nag ar ddyddiad penodol. Mewn achos o'r fath, dylech chi nodi'r dyddiad dechrau a'r dyddiad gorffen yn eich rhestr o weithgareddau.

– **Tystiolaeth sy'n dangos bod y DPP rydych wedi ysgrifennu amdano yn y proffil wedi digwydd.** Gallech ddarparu tystiolaeth hefyd (os yw ar gael) o sut mae eich DPP wedi bod o fudd i'ch ymarfer a defnyddwyr eich gwasanaeth.

Byddwn yn chwilio am dystiolaeth bod y gweithgareddau rydych wedi ysgrifennu amdanynt yn eich datganiad wedi digwydd. Felly er enghraifft, os ydych chi wedi dweud wrthon ni am bum gweithgaredd yn eich datganiad, byddem yn disgwyl gweld pum darn o dystiolaeth ategol.

Mae Atodiad 2 yng nghefn y ddogfen hon yn rhoi rhestr o'r gwahanol fathau o dystiolaeth y gallech chi eu hanfon atom. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth megis tystysgrifau cyrsiau, yn ogystal â thystiolaeth rydych chi wedi'i greu eich hun, er enghraifft, nodiadau wedi i chi ddarllen cyfnodolion proffesiynol.

Gallwch hefyd anfon tystiolaeth i ni o'r budd sydd wedi deillio o'ch DPP. Er enghraifft, efallai bod gennych dystiolaeth o gyfarfod gyda'ch rheolwr ble buoch chi'n trafod defnyddio sgiliau newydd a ddysgoch chi, neu efallai bod gennych dystiolaeth sy'n dangos sut y gwnaethoch chi eich hun gynllunio ar gyfer gwneud newidiadau i systemau ac arferion. Ond rydym yn cydnabod nad yw'n bosib cael tystiolaeth fel hyn ar gyfer rhai gweithgareddau. Felly dylech chi wneud yn siŵr eich bod yn egluro'n glir yn eich datganiad beth ddysgoch chi o weithgaredd a pha fudd rydych chi'n meddwl a ddeilliodd o'r gweithgaredd a pham.

# Adran 7 - Rhagor o wybodaeth

Mae ein gwefan: www.hcpc-uk.org/registrants/cpd yn cynnwys rhagor o wybodaeth, gan gynnwys:

– canllawiau ynglŷn â rhoi proffil DPP at ei gilydd;

– proffiliau DPP enghreifftiol;

– adroddiadau archwilio DPP eilflwydd yr HCPC; a

– cwestiynau cyffredin DPP.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â’r ddogfen hon, cysylltwch â ni. Gallwch gysylltu â ni yn:

Adran Cofrestru
Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
Park House
184 Kennington Park Road
Llundain
SE11 4BU

Ffôn: +44 (0)300 500 4472

E-bost: registration@hcpc-uk.org

# Geirfa

**Addasrwydd i ymarfer** Pan fyddwn ni'n dweud bod unigolyn cofrestredig yn 'addas i ymarfer', yr hyn a olygwn ydy eu bod yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r cymeriad i ymarfer eu proffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol.

Addasrwydd i ymarfer ydy'r enw hefyd ar y broses rydym yn ei dilyn pan fyddwn ni'n ystyried pryderon ynglŷn ag ymarfer neu ymddygiad unigolyn cofrestredig

**Adnewyddu** Y broses lle bydd gweithwyr proffesiynol sydd ar ein Cofrestr yn gwneud datganiad proffesiynol ac yn talu eu ffioedd cofrestru er mwyn iddynt allu parhau i fod yn gofrestredig. Mae pob proffesiwn yn adnewyddu ei gofrestriad bob dwy flynedd.

**Ailymuno** Y broses lle gall rhywun a fu'n gofrestredig yn y gorffennol ymgeisio i fod yn gofrestredig eto.

**Apêl** Os na fyddwch chi'n bodloni'r safonau DPP, neu os na fyddwch chi wedi cymryd rhan neu wedi cwblhau'r broses archwilio, a'n bod ni'n dweud wrthoch chi y byddwn yn eich tynnu o'r Gofrestr, gallwch chi ofyn i ni ailystyried y penderfyniad drwy wneud apêl

**Archwiliad** Archwiliad DPP ydy'r broses ble byddwn ni'n gofyn i sampl o unigolion cofrestredig sy'n adnewyddu eu cofrestriad i anfon proffil i mewn sy'n dangos sut mae eu DPP yn bodloni ein safonau

**Asesydd DPP** Unigolyn cofrestredig yr ydym wedi'u penodi i asesu proffiliau DPP yn unol â'r safonau DPP.

**Corff proffesiynol** Mae gan bob un o'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio o leiaf un corff proffesiynol. Gall cyrff proffesiynol gefnogi eu haelodau, hyrwyddo'r proffesiwn a datblygu'r ymarfer gorau.

**Datblygu proffesiynol parhaus (DPP)** DPP ydy'r ffordd y byddwch yn parhau i ddysgu a datblygu drwy gydol eich gyrfa er mwyn i chi gadw'ch sgiliau a'ch gwybodaeth yn gyfoes a gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Defnyddiwr Gwasanaeth** At ddibenion y safonau ar gyfer DPP, defnyddiwr gwasanaeth ydy rhywun sy'n defnyddio ymarfer rhywun cofrestredig neu y mae'r ymarfer hwnnw'n effeithio arnynt.

**Gohirio** Os nad ydych chi'n gallu cwblhau eich proffil, gohirio ydy'r broses lle gallwch chi beidio â chael eich archwiliad DPP tan y tro nesaf y bydd eich proffesiwn yn adnewyddu ei gofrestriad

**Proffil** Os cewch chi archwiliad, dyma'r wybodaeth rydych yn ei hanfon atom ni er mwyn dangos sut rydych chi'n bodloni'r safonau ar gyfer DPP.

**Rhywun cofrestredig** Gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal sydd wedi'u cofrestru gennym ni.

# Atodiad 1: Enghreifftiau o weithgareddau DPP

Dylai'r rhestr hon roi syniad i chi o'r math o weithgareddau allai ffurfio eich DPP. (Mae'r rhestr hon wedi'i haddasu o waith a wnaed gan brosiect y Proffesiynau Perthynol i Iechyd 'Demonstrating competence through CPD' (2003).)

## Dysgu seiliedig ar waith

- Dysgu trwy wneud
- Astudiaethau achos
- Ymarfer myfyriol
- Archwiliad o ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Coetsio gan eraill
- Trafodaethau gyda chydweithwyr
- Adolygu cymheiriaid
- Ennill profiad a dysgu ohono
- Ymwneud â gwaith ehangach eich cyflogwr sy'n gysylltiedig â'r proffesiwn (er enghraifft, bod yn gynrychiolydd ar bwyllgor)
- Cysgodi gwaith
- Secondiadau
- Cylchdroi swyddi
- Clwb cyfnodolion
- Hyfforddiant mewn-swydd
- Goruchwylio staff neu fyfyrwyr
- Ehangu eich rôl
- Dadansoddiad arwyddocaol o ddigwyddiadau
- Llenwi holiaduron hunanasesu
- Gwaith prosiect

## Gweithgareddau proffesiynol

- Ymwneud â chorff proffesiynol, grŵp diddordeb arbenigol neu grwpiau eraill
- Darlithio neu addysgu
- Mentora
- Bod yn arholwr
- Bod yn diwtor
- Trefnu clybiau cyfnodolion neu grwpiau arbenigol eraill
- Cynnal neu ddatblygu sgiliau arbenigol (er enghraifft, sgiliau cerddorol)
- Bod yn dyst arbenigol
- Rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau
- Trefnu cyrsiau achrededig
- Goruchwylio ymchwil neu fyfyrwyr
- Bod yn asesydd cenedlaethol

## Ffurfiol ac addysgol

- Cyrsiau
- Addysg bellach
- Ymchwil
- Mynychu cynadleddau
- Ysgrifennu erthyglau neu bapurau
- Mynd i seminarau
- Dysgu o bell neu ar-lein
- Mynd ar gyrsiau sydd wedi'u hachredu gan gorff proffesiynol
- Cynllunio neu gynnal cwrs

## Dysgu hunangyfeiriedig

- Darllen cyfnodolion neu erthyglau
- Adolygu llyfrau neu erthyglau
- Diweddaru eich gwybodaeth drwy'r rhyngrwyd neu'r teledu
- Cadw ffeil o'ch cynnydd

## Arall

- Gwaith perthnasol mewn gwasanaethau cyhoeddus neu'n wirfoddol

# Atodiad 2: Enghreifftiau o dystiolaeth

Dylai'r rhestr hon roi syniad i chi o'r mathau o dystiolaeth o'ch DPP y gallech eu darparu. (Mae'r rhestr hon wedi'i haddasu o waith a wnaed gan brosiect y Proffesiynau Perthynol i Iechyd 'Demonstrating competence through CPD' (2003).)

**Deunyddiau y gallech chi fod wedi'u cynhyrchu**

- Taflenni gwybodaeth
- Astudiaethau achos
- Adolygiadau beirniadol
- Datganiadau polisi neu safbwynt
- Dogfennau ynglŷn â phrosesau cenedlaethol neu leol
- Adroddiadau (er enghraifft, ynglŷn â gwaith prosiect neu archwiliadau neu adolygiadau)
- Cynlluniau busnes
- Gweithdrefnau
- Deunyddiau canllaw
- Canllawiau ar gyfer ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth
- Aseiniadau cwrs
- Cynlluniau gweithredu
- Dogfennau rhaglen cwrs
- Cyflwyniadau rydych chi wedi'u rhoi
- Erthyglau ar gyfer cyfnodolion
- Holiaduron
- Papurau, cynigion, ceisiadau am gyllid ymchwil
- Deunyddiau cynefino ar gyfer aelodau staff newydd
- Cytundebau dysgu
- Cyfraniadau at waith corff proffesiynol
- Cyfraniadau at waith grwp diddordeb arbennig

**Deunyddiau sy'n dangos sut rydych chi wedi myfyrio ynglŷn â'ch dysgu a'ch gwaith ac wedi eu gwerthuso**

- Dogfennau wedi'u haddasu a ddeilliodd o werthusiadau, adolygiadau goruchwylio ac ati
- Dogfennau ynglŷn â dilyn cynlluniau lleol neu genedlaethol sy'n gysylltiedig â DPP
- Gwerthusiadau o gyrsiau neu gynadleddau rydych chi wedi eu mynychu
- Cynlluniau datblygu personol
- Ceisiadau wedi'u cymeradwyo am gredydau am ddysgu neu brofiad blaenorol

**Deunyddiau rydych wedi'u cael gan eraill**

- Tystebau
- Llythyrau gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, myfyrwyr neu gydweithwyr
- Tystysgrifau cyrsiau

# Atodiad 3: Meini prawf asesu

## Meini prawf asesu

| Safon | Safon heb ei bodloni | Safon wedi’i bodloni’n rhannol | Safon wedi’i bodloni |
|---|---|---|---|
| 1. Rhaid i unigolyn cofrestredig gadw cofnod parhaus o’u gweithgareddau DPP sydd wedi’i ddiweddaru ac yn gywir. | Nid ydych chi wedi darparu tystiolaeth eich bod wedi cadw cofnod o’ch DPP. | Mae rhywfaint o dystiolaeth eich bod wedi cadw cofnod – er enghraifft, rydych chi wedi disgrifio sut buoch yn cadw cofnod. | Mae tystiolaeth eich bod wedi cadw cofnod o’ch gweithgareddau DPP. Rydych chi wedi cynnwys rhestr â dyddiadau o’r holl weithgareddau DPP rydych wedi’u cyflawni. Os oes bwlch o dri mis neu fwy, rydych chi wedi egluro pam. |
| 2. Rhaid i unigolyn cofrestredig ddangos bod eu gweithgareddau DPP yn gymysgedd o weithgareddau dysgu sy’n berthnasol i ymarfer yn y presennol neu’r dyfodol. | Nid ydych chi wedi cyflawni unrhyw weithgareddau DPP.<br><br>Neu<br><br>Mae eich DPP yn cynnwys un math o weithgaredd dysgu yn unig.<br><br>Neu<br><br>Nid yw eich DPP yn berthnasol i’ch ymarfer yn y presennol neu’r dyfodol. | Mae rhywfaint o dystiolaeth bod eich DPP yn berthnasol i waith presennol neu yn y dyfodol, ond nid yw hyn yn eglur. | Mae eich DPP yn cynnwys o leiaf ddau fath o weithgaredd dysgu.<br><br>Ac<br><br>Mae eich gweithgareddau DPP yn berthnasol i’ch ymarfer yn y presennol neu’r dyfodol. |

## Meini prawf asesu

| Safon | Safon heb ei bodloni | Safon wedi'i bodloni'n rhannol | Safon wedi'i bodloni |
|---|---|---|---|
| 3. Rhaid i unigolyn cofrestredig geisio sicrhau bod eu DPP wedi cyfrannu at ansawdd eu hymarfer a'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt. | Nid ydych chi wedi darparu unrhyw wybodaeth sy'n dangos eich bod wedi meddwl am sut gallai eich gweithgareddau DPP fod wedi gwella ansawdd eich gwaith. | Mae rhywfaint o awgrym bod eich DPP wedi gwella eich gwaith ond nid yw hyn yn eglur. | Mae eich datganiad personol yn egluro sut mae eich gweithgareddau DPP wedi gwella ansawdd eich gwaith.<br>Neu<br>Rydych wedi egluro sut roeddech chi'n credu y byddai eich DPP yn gwella ansawdd eich gwaith ond nid yw hynny wedi digwydd. Rydych chi wedi egluro pam mai felly y bu a beth byddwch chi'n ei wneud yn<br>y dyfodol. |

## Meini prawf asesu

| Safon | Safon heb ei bodloni | Safon wedi'i bodloni'n rhannol | Safon wedi'i bodloni |
|---|---|---|---|
| 4. Rhaid i unigolyn cofrestredig geisio sicrhau bod eu DPP o fudd i ddefnyddwyr y gwasanaeth. | Nid ydych chi wedi darparu unrhyw wybodaeth sy'n egluro unrhyw fudd i ddefnyddwyr y gwasanaeth. | Mae gwybodaeth neu esboniad cyfyngedig ynglŷn â sut mae eich gweithgareddau DPP wedi bod o fudd i ddefnyddwyr y gwasanaeth. | Mae eich datganiad personol yn egluro sut mae eich gweithgareddau DPP wedi bod o fudd i ddefnyddwyr eich gwasanaeth.<br><br>Neu<br><br>Rydych wedi egluro sut roeddech chi'n credu y byddai eich DPP o fudd i ddefnyddwyr eich gwasanaeth ond nid yw hynny wedi digwydd.<br><br>Rydych chi wedi egluro pam mai felly y bu a beth byddwch chi'n ei wneud yn y dyfodol. |
| 5. Rhaid i unigolyn cofrestredig, pan ofynnir am hynny, gyflwyno proffil ysgrifenedig (ac mae'n rhaid mai eu gwaith eu hunain fydd hwnnw a'i fod wedi'i ategu â thystiolaeth) sy'n egluro sut maent wedi bodloni'r Safonau ar gyfer DPP. | Ni wnaethoch chi gwblhau proffil a'i anfon atom erbyn y dyddiad cau. | Rydych chi wedi darparu proffil ond mae'n anghyflawn (er enghraifft, mae'r dystiolaeth yn eisiau). | Rydych chi wedi anfon proffil wedi'i gwblhau i mewn erbyn y dyddiad cau. |

Park House
184 Kennington Park Road
Llundain SE11 4BU

ffôn +44 (0)300 500 6184
ffacs +44 (0)20 7820 9684
www.hcpc-uk.org

**I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, e-bostiwch publications@hcpc-uk.org**

RECYCLED
Paper made from recycled material
FSC® C012830

© Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal 2017
Cod y cyhoeddiad: 20060602cPOLPUB (diweddarwyd Mehefin 2017)
Cynhyrchir y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio coed o goedwigoedd cynaliadwy.

Crystal Mark 13650
Clarity approved by Plain English Campaign